# DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB YR UNIGOLYN: DARLUNYDD/DYLUNYDD GRAFFEG/CREWR – RHAGLEN ALLGYMORTH YSGOLION ‘BALLOON GIRL’

| | |
|---|---|
| **CYFLE:** | Darlunydd/Dylunydd Graffeg/Crewr |
| **PROSIECT:** | *Balloon Girl/ Cardiff Great Exhibition 2026* |
| **FFI:** | £200 y dydd |

## TROSOLWG PROSIECT:

Yn 2026 rydyn ni’n nodi 130 mlynedd ers i Gaerdydd gynnal **Arddangosfa Celfyddyd Gain a Diwydiannol 1896**, arddangosfa ryfeddol, ond sydd wedi’i hanghofio i raddau helaeth, a dathliad mawreddog o arloesedd Fictoraidd a ddenodd dros filiwn o ymwelwyr. Gan ddwyn ysbrydoliaeth o’r digwyddiad hanesyddol yma, mae **Rhaglen Ysgolion Arddangosfa Fawr Caerdydd 2026** yn gwahodd pobl ifanc i ailddarganfod pennod anghofiedig o stori eu dinas, dychmygu dyfodol newydd beiddgar a rhannu eu gweledigaeth drwy gelf, gwaith adrodd straeon a thechnoleg greadigol.

Wrth wraidd y prosiect mae ***Balloon Girl***, cynhyrchiad theatrig newydd gan **Hannah McPake** (Tilting at Windmills Productions), mewn partneriaeth â **Theatr y Sherman**. Bydd y cynhyrchiad yn gweithredu fel catalydd creadigol ar gyfer cynllun uchelgeisiol, gan ennyn diddordeb pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd—mewn taith chwareus a dychmygus drwy hanes Caerdydd, ei phresennol a’i dyfodol posib. Bydd yn adlewyrchu'r ymdeimlad o drawsnewid a chyfle oedd yn ganolog i Arddangosfa Caerdydd 1896.

Drwy gyfuno hanes ymdrochol gyda’r dyfodol dychmygus, bydd y prosiect yn grymuso disgyblion i ddod **yn adroddwyr straeon**, **yn arloeswyr** ac **yn warcheidwaid treftadaeth Caerdydd**.

Gwnaed Rhaglen Allgymorth Ysgolion ‘Balloon Girl’ yn bosibl gan Gronfa Treftadaeth Loteri Genedlaethol.

## TROSOLWG SWYDD:

Rydym yn edrych am fynegiannau o ddiddordeb gan Ddarlunwyr, Dylunwyr Graffeg a Chrewyr i gefnogi datblygiad y *Rhaglen Allgymorth Ysgolion Balloon Girl*.

Gan weithio’n gyfagos â’r tîm sydd wrth wraidd y prosiect, bydd y swyddi yma’n helpu siapio hunaniaeth weledol y prosiect ar draws gweithdai, adnoddau addysg a deunyddiau ar gyfer cyfranogwyr. Bydd yr unigolion yn cefnogi’r gwaith o greu

cynnwys gweledol a ffisegol sy'n annog chwilfrydedd, sgiliau adrodd straeon a dychymyg ar gyfer pobl ifanc 10-12 oed.

Mae'r prosiect yn y cyfnod datblygu cynnar ar hyn o bryd ac mi fydd maes bob swydd yn esblygu wrth i'r rhaglen ddatblygu. Oherwydd hyn, byddwn yn penderfynu gyda'r unigolion pa ddyddiau y byddant yn gweithio ar y prosiect.

## PRIF AMCANION Y SWYDDI:

Yn dibynnu ar y rôl:

- Creu cynnwys darluniol, graffeg neu'n seiliedig ar arteffactau ar gyfer gweithdai, adnoddau a deunyddiau prosiect
- Dylunio a chynhyrchu eiddo ac arteffactau digidol a ffisegol sy'n gysylltiedig â naratif y prosiect, a gallai gynnwys mapiau, gwrthrychau, elfennau graffeg a deunyddiau adrodd straeon
- Cefnogi'r gwaith o ddylunio pecyn adnoddau ar gyfer ysgolion a deunyddiau ar gyfer cyfranogwyr
- Paratoi gwaith celf ac eiddo mewn fformatau print, digidol ac arddangosfa
- Cydweithio â'r tîm creadigol i ddatblygu steil gweledol cydlynol ar draws y rhaglen
- Cyfrannu at hunaniaeth weledol cyffredinol ac esthetig y prosiect
- Sicrhau bod deunyddiau'n atyniadol, hygyrch a phriodol ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc
- Rheoli ffeiliau a gwaith celf yn effeithlon a chyflwyno gwaith i'r dyddiadau cau a gytunwyd

## MANYLEB YR UNIGOLYN:

### HANFODOL

Yn dibynnu ar y rôl:

- Profiad o ddarlunio, dylunio graffeg, creu propiau, neu brofiad perthnasol yn gweithio yn y celfyddydau gweledol
- Sgiliau adrodd straeon a chyfathrebu cryf
- Gallu i greu dyluniadau atyniadol a hygyrch ar gyfer pobl ifanc
- Profiad o weithio ar draws fformatau ffisegol, print a/neu ddigidol
- Gallu i ddehongli briffiau gweledol ac ymateb i adborth mewn ffordd gydweithredol

- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli llwyth gwaith a dyddiadau cau yn annibynnol
- Gallu i gydweithio fel aelod o dîm creadigol

## DYMUNOL

- Profiad o weithio ar raglenni celfyddyd, diwylliannol neu gyfranogol
- Profiad o greu deunyddiau gweledol ar gyfer theatr, profiadau ymdrochol neu rhyngweithiol
- Profiad o ddatblygu bydau gweledol wedi'u harwain gan naratif
- Dealltwriaeth o ymarferion dylunio hygyrch
- Profiad o ddylunio dwyieithog yn Saesneg a'r Gymraeg

## I WNEUD CAIS:

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y cyfle yma, anfonwch e-bost at *gwen.morris@shermantheatre.co.uk* gan egluro pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y byddai eich profiad yn berthnasol i'r prosiect, yn ogystal ag enghreifftiau o'ch gwaith.

**Plis anfonwch fynegiant o ddiddordeb erbyn 5yh ar y 5ed o Orffennaf 2026**

Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad yma os oes gennych gwestiynau neu os hoffech siarad â rhywun yn anffurfiol am y swydd.

Rydyn ni am i'n tîm adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ledled y de-ddwyrain. Felly, rydyn ni'n estyn croeso arbennig i ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector ar hyn o bryd.

Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw.